OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 495 (Cy. 117)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Rhwng Cylchfan Highbeech a Pont Afon Gwy, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau Traffig a Therfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro) 2020

*Gwnaed* *29 Ebrill 2020*

*Yn dod i rym* *5 Mai 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Rhwng Cylchfan Highbeech a Pont Afon Gwy, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau Traffig a Therfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 5 Mai 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Mai 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Gwaharddiadau a Cyfyngiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

---

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Ebrill 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Highbeech hyd at bwynt 15 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Bulwark Road.

Y llwybr arall ar gyfer traffig y bydd cau'r gefnffordd yn effeithio arno fydd mynd ar yr A466 Ffordd Gyswllt Dyffryn Gwy, Thornwell Road a thua'r gogledd ar Bulwark Road.

Bydd mynediad lleol i eiddo ar yr A48 Newport Road ar gael drwy fynd ar y llwybr dargyfeirio uchod.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Chylchfan Highbeech hyd at bwynt 127 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Upper Church Street.